Ombwdsmon Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Ein cyf: NB/MM

Gofynnwch am: Marilyn Morgan
01656 641152
Marilyn.morgan@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 30 Gorffennaf 2020

Rt Hon Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

**Trwy ebost yn unig**
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Annwyl Brif Weinidog

Nodaf y ddadl a'r cynnig llawn a basiwyd yn ddiweddar yn y Senedd sy'n cefnogi ymchwiliad cyhoeddus i'r ymateb i'r pandemig coronafeirws yng Nghymru.
Yn ystod y ddadl, dywedodd eich Cwnsler Cyffredinol:

> "Mae'r pandemig hwn wedi effeithio ar bob rhan o'r DU, a gwnaed llawer o benderfyniadau ar draws y pedair gwlad. Mae llawer iawn o'r ymateb i'r pandemig wedi cael ei reoli yn gywir ar lefel y DU ac mae wedi cynnwys sawl un arall ochr yn ochr â Llywodraethau. Mae'n bwysig felly bod Llywodraeth y DU, y Llywodraethau datganoledig ac eraill yn mabwysiadu ymagwedd gydlynol i'r ymchwiliad i'r ymdriniaeth. Byddem yn gobeithio y gellid cyflawni hynny, ond os nad yw hynny'n bosibl, yn amlwg byddem yn derbyn ymchwiliad sydd wedi'i gyfyngu i ddigwyddiadau a chamau gweithredu yng Nghymru."

Er nad oes gennyf amheuaeth beth fydd maint yr her o ran sicrhau ymagwedd gwbl gydlynol rhwng y pedair gwlad, bydd rhaid i ddigwyddiadau a chamau gweithredu yng Nghymru gynnwys yr ystod lawn o swyddogaethau datganoledig yr effeithiwyd arnynt - yn enwedig iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr iaith Gymraeg, datblygiad economaidd a gwasanaethau llywodraeth leol gan gynnwys digartrefedd.

Yn ogystal â methiannau cychwynnol megis methiannau gwasanaeth, mae angen i unrhyw ymchwiliad annibynnol gynnwys arloesi cadarnhaol a gwelliannau diwylliannol hefyd.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Gallai Ymchwiliad yng Nghymru edrych ar ystod o faterion sy’n effeithio ar blant a phobl hŷn, yn ogystal ag anghyfiawnder, gwerth am arian a’r effeithiau tymor hir ar genedlaethau’r dyfodol - materion sy'n berthnasol i gynlluniau gwaith y Comisiynwyr, OGCC, Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill.

A gaf i ofyn bod rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys yn briodol, a bod ymgynghori yn digwydd gyda nhw yn gynnar yng Nghymru ynglŷn â’r agweddau datganoledig ar unrhyw ymchwiliad, o ran ei gwmpas a’i gylch gorchwyl er mwyn darparu “fframwaith” i ganiatáu i gyrff goruchwylio eraill osgoi dyblygu, a hefyd i flaenoriaethu ymchwiliadau systematig a thematig sydd yn deillio o’r argyfwng?

Yn gywir

Nick Bennett
Ombwdsmon

cc: Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd y Gymraeg